



AT AELODAU CYMDEITHAS DEFAID LLEYN

3ydd Hydref, 2024

CYFARFOD BLYNYDDOL CYMDEITHAS DEFAID LLEYN CYF.

Bydd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Defaid Lleyrn Cyf. yn cael ei gynnal eleni yng Ngwesty'r Centurion, Midsomer Norton, BA3 4BD, ar Nos Sadwrn, 26ain Hydref, 2024 am 6.00 y.h.

Mae'r Rhaglen yn amgaeedig. Bydd y dogfennau i'w gweld ar wefan y Gymdeithas www.lleynsheep.com

Os y dymunwch gael copi caled o'r dogfennau, cysylltwch â'r swyddfa – office@lleynsheep.com neu drwy ffonio 01758 730366. A fyddwch mor garedig a gadael i ni wybod a ydych yn dymuno cael copi dwyieithog, copi Cymraeg neu gopi Saesneg.

R H A G L E N

1. **CROESAWU**
2. **YMDDIHEURIADAU**
3. **I ETHOL LLYWYDD AM Y FLWYDDYN 2024/2025**
4. **I ETHOL IS-LYWYDD AM Y FLWYDDYN 2024/2025**
5. **AELODAETH Y CYNGOR**
I adrodd ar yr enwebiadau i ethol aelodau newydd ar y Cyngor
6. **AELODAETH Y PWYLLGOR DISGYBLU**
I gadarnhau yr aelodau a enwebwyd gan y Cyngor i weithredu ar y Pwyllgor Disgyblu.
7. **CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL GYNHALIWYD**
28ain HYDREF, 2023 "A"
8. **ADRODDIAD Y CADEIRYDDES** "B"
9. **ADRODDIAD Y CYNGOR** "C"
10. **CYFLWYNO'R FANTOLEN ARIANNOL AM Y FLWYDDYN 2023/24** "CH"
(a) I dderbyn y fantolen ariannol am y flwyddyn 2023/24.
(b) I dderbyn cadarnhad fod y Gymdeithas yn hawlio rhyddhad rhag gorfod cael archwiliad.
11. **CYFRIFON**
I benodi Archwilwyr am y flwyddyn 2024/25.
12. **TÂL AELODAETH**
Yn unol â Rheolau'r Gymdeithas, i adolygu'r tâl aelodaeth a delir yn flynyddol. Mae'r Cyngor yn argymhell codi'r tâl aelodaeth o'r 1af Ionawr, 2025, i £35/€42 (dim T.A.W).
Y tâl cyfredol yw £30/€35 (Dim T.A.W.) y flwyddyn yn daladwy ar 1af Ionawr ymhob blwyddyn.

13. **AELODAU IFANC**

I ystyried derbyn ceisiadau i ymaelodi â'r Gymdeithas gan berson ifanc 10 oed a throsodd yn ddarostyngedig fod y rhiant/gwarcheidwad yn arwyddo'r ffurflen gais, ac unrhyw ddogfen arall, gyda'r ymgeisydd. Bydd hyn yn digwydd hyd nes bydd ef/hi wedi cael ei b(ph)enblwydd yn 16oed.

14. **CYFLWYNO CWPANAU A THYSTYSGRIFAU AM Y FLWYDDYN 2024**

Cwpan Roseland am y pris uchaf am faharen neu oen maharen yn Arwerthiant Caer-Wysg 2024 - **Sian Hughes (825) 2,500gini**

Cwpan Barnard am y pris uchaf am faharen/oen maharen yn Arwerthiant Rhuthun 2024
Wynne Davies (diadell 50) 1,300gini

Cwpan Cymdeithas Defaid Lleyn am y pris uchaf am faharen/oen maharen yn Arwerthiant Ross-on-Wye 2024 – **Lionel Organ (306) 3,400gini**

Cwpan Lluest Wen am y pris uchaf am faharen neu oen maharen yn Arwerthiant Y Trallwng 2024 – **J.A. a R. Geldard a'r Meibion (621) 2,550gini**

Cwpan Clwb yr Alban a'r Gororau am y pris uchaf o beniad o famogiaid gan aelod o'r Clwb unai yn Arwerthiant Stirling neu Caerliwelydd

Hamish Goldie (1312) - £320 y pen

Cyflwynir hefyd dystysgrifau i'r aelodau hynny sydd wedi derbyn yr anrhydedd o gael beirniadu mewn Sioe Frenhinol yn ystod 2024.

Sioe Frenhinol yr Ucheldir –**Bethan Vaughan**

Sioe Frenhinol Cymru – **Alan McDonald**

Sioe Frenhinol Ulster – **Roger Wells**

15. **UNRHYW FATER ARALL**

16. **DIOLCHIADAU**



Ysgrifenyddes

Cymdeithas Defraud Lleyn Cyf. Lleyn Sheep Society Ltd.

Swyddfa Gofrestredig/Registered Office: Gwyndy, Bryn croes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.

Tel: 01758 730366

e-bost: office@lleynsheep.com

Rhif Cof./Reg. No. 23902



Atodiad 'A'

CYMDEITHAS DEF AID LLEYN CYF.

Adroddiad o Gyfarfod Blynyddol Cymdeithas Defaid LleyN Cyf. a gynhaliwyd yng Ngwesty Redworth Hall, Redworth, County Durham, Nos Sadwrn, 28ain Hydref, 2023, o 6.00 y.h hyd 6.50 y.h.

Presennol: Yn unol â'r Gofrestr Presenoldeb
Ymddiheuriadau: Fel eu cofrestrwyd.

1. CROESAWU

Croesawodd Cadeiryddes y Cyngor, Mrs. Bethan Vaughan, yr aelodau i'r cyfarfod.

2. TYMOR Y LLYWYDD A'R IS-LYWYDD

Cyflwynwyd argymhelliad y Cyngor fod tymor y Llywydd a'r Is-lywydd i fod hyd at uchafwm o dair blynedd ond i'w hethol yn flynyddol.

Penderfynwyd mabywiadu'r argymhelliad gan ddechrau o Hydref 2023 ymlaen.

Cynigiwyd gan Richard Twose gyda Carolanne Crawford yn cefnogi a phawb o blaid.

2. LLYWYDD AM Y FLWYDDYN 2023/2024

Etholwyd Mr. A. Wynne Davies yn Llywydd am y flwyddyn 2023/2024.

Cynigiwyd gan Meurig Williams a gyfeiriodd at y gwaith arbennig a wneir gan Wynne – aelod o'r Cyngor dros flynyddoedd maith ac yn manteisio ar bob cyfle i hybu a hyrwyddo'r brid. Eiliwyd gan Siôn Bryn Roberts gyda phawb yn gefnogol.

Cymerodd Mr. A. Wynne Davies y gadair am weddill y cyfarfod a diolchodd am eiriau caredig Meurig Williams ac am a'r anrhydedd sydd wedi dod i'w ran unwaith eto. Mynegodd ei fod yn ei themlo'n fraint ac anrhydedd cael bod yn Llywydd y Gymdeithas. Diolchodd i'r Gadeiryddes am ei gwaith dros y flwyddyn yn llywio'r holl weithgareddau mewn modd proffesiynol.

3. IS-LYWYDD AM Y FLWYDDYN 2023/2024

Etholwyd Mr. John Geldard yn Is-lywydd y Gymdeithas am y flwyddyn 2023/2024.

Cynigiwyd gan David Knowles a gyfeiriodd nad oedd angen cyflwyno John Geldard i'r aelodau gan fod y brid yn agos iawn at ei galon a byddai'n ased i'r Gymdeithas wynebu amser anodd sydd o'n blaenau. Eiliwyd y cynnig gan James Barrow.

Yr un modd diolchodd yr Is-lywydd etholedig am y fraint o gael gwasanaethu am flwyddyn arall a dymunodd bob rhwyddineb i'r dyfodol i'r Gymdeithas.

4. AELODAETH Y CYNGOR

Adroddwyd ar y rhai a etholwyd yn ddi-wrthynebiad i weithredu ar y Cyngor am gyfnod o dair blynedd:

LleyN ac Eifionydd (Rhanbarth 1)

Gogledd Cymru (Rhanbarth 2)

Meurig Williams

I.O. Jones

De Cymru (Rhanbarth 3)
De Lloegr (Rhanbarth 5)
Gogledd Orllewin a Gogledd Lloegr Rhanbarth 6)
Yr Alban (Rhanbarth 8)

Bethan Vaughan
M.H. Miller
John Dugdale
Carolanne Crawford
Derek Steen
Edward Adamson

Gogledd Iwerddon a Ynys Manaw (Rhanbarth 10)

Penderfynwyd derbyn yr enwebiadau fel eu cofnodwyd uchod a llongyfarchwyd hwynt ar gael eu hethol am gyfnod o dair blynedd.

Cynigiwyd gan Gill Adams ac eiliwyd gan Colin Price.

Nodyn – bydd 19 o aelodau yn gweithredu ar y Cyngor ynghyd â'r Llywydd a'r Is-lywydd yn rhinwedd eu swydd.

5. **AELODAETH Y PWYLLGOR DISGYBLU**

Penderfynwyd ethol yr aelodau a ganlyn i wasanaethu ar y Pwyllgor Disgyblu sef: John M. Adams, Rhys Davies, Wallace McCurdie, Alan McDonald ac Alan T. West. Cynigwyd gan Paul Eckett ac eiliwyd gan Debbie McGowan gyda phawb yn cytuno.

6. **CADARNHAU COFNODION**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd 22ain Hydref, 2022. Cynigwyd gan Carolanne Crawford ac eiliwyd gan James Barrow gyda phawb yn cytuno.

7. **ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

Cyflwynwyd a derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd
Cynigwyd gan John Geldard ac eiliwyd gan Edward Adamson.

8. **ADRODDIAD Y CYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad ar weithrediadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.
Cynigwyd gan Richard Twose ac eilwyd gan Derek Steen.

9. **CYFLWYNO'R FANTOLEN ARIANNOL AM Y CYFNOD 1af EBRILL, 2022 i 31ain MAWRTH, 2023**

a) **Cyflwynwyd** cyfrifon y Gymdeithas am y cyfnod 1af Ebrill, 2022 i 31ain Mawrth, 2023, fel y'u paratowyd gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon – Archwilwyr y Gymdeithas.

Ymhelaethodd y Trysorydd, David Knowles, ar y cyfrifon:

Gwelwyd colled yn yr incwm a dderbyniwyd ac eglurodd mai'r pedwair prif ffynhonell i dderbyn cyllid oedd:

Aeldaeth – ychydig i fyny

Cofrestru wyn benyw – gostyngiad

Archwilio hyrddod – gostyngiad

Comisiwn o'r arwerthiannau – gostyniad

Diolchodd i'r noddwyr am eu haelioni yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Yna o ochr gwariant:

Yn dilyn cyfnod COFID 'roedd y gweithgareddau yn ôl fel ac yr oeddant yn flaenorol felly gwelwyd cynnydd yn y maesydd isod yn benodol:

Sioeau

Y blwyddlyfr

Man cyfarfod ar gyfer y cyfarfodydd

Eglurodd y Trysorydd fod y cyfrifon yn dangos colled ariannol am y flwyddyn hon.

Wrth derfynu diolchodd y Trysorydd am gymorth yr Ysgrifenyddes a Bethan Vaughan, y Gadeiryddes, yn y paratodau i gwblhau'r cyfrifon.

Penderfynwyd derbyn y fantolen fel y'i cyflwynwyd a diolchwyd i David Knowles am ei adroddiad a'i waith yn ystod y flwyddyn.

Cynigiwyd gan John Geldard pryd y diolchodd i'r Trysorydd a'r tîm am baratoi'r cyfrifon ac eiliwyd gan Pamela Ritchie.

b) **Rhyddhad rhag gorfod cael archwiliad**

Penderfynwyd fod y Gymdeithas yn hawlio rhyddhad rhag gorfod cael archwiliad.

Cynigiwyd gan Carolanne Crawford ac eiliwyd gan James Barrow.

10. **CYFRIFON**

Penderfynwyd enodi Mri. Owain Bebb a'i Gwmni yn Archwilwyr Swyddogol y Gymdeithas am y flwyddyn 2023/24.

Cynigwyd gan A.W. Hughes ac eiliwyd gan Meurig Williams.

11. **TÂL AELODAETH**

Yn unol â Rheolau'r Gymdeithas, adolygwyd y tâl a delir yn flynyddol am ymaelodi â'r Gymdeithas.

Penderfynwyd glynu at yr un tâl aelodaeth sef £30/€35 (heb T.A.W.) y flwyddyn yn ddyledus ar 1af Ionawr, 2024.

Cynigwyd gan John Geldard ac eiliwyd gan David Knowles.

12. **ENILLWYR Y CPWANNAU AM Y FLWYDDYN 2023**

Cwpan Barnard am y pris uchaf am faharen/oen maharen yn Arwerthiant Rhuthun – E. a D. Jones (599) – 1700gini

Cyflwynodd Ifor O. Jones y gwpan i Richard Twose ar ran Emrys a Dylan Jones.

Cwpan Cymdeithas Defaid Lleyllyn am y pris uchaf am faharen/oen mharen yn Arwerthiant Ross-on-Wye – A.W. Davies (50) 3400gini

Cyflwynodd Sally Gunn y gwpan i Wynne Davies.

Cwpan Roseland am y pris uchaf am faharen/oen maharen yn Arwerthiant Caerwysg – W.J. a D.J. Williams (350) 2100gini

Cyflwynodd Gill Adams y gwpan i Meurig Williams ar ran William a Debbie Williams.

Cwpan Lluest Wen am y pris uchaf am faharen/oen maharen yn Arwerthiant y Trallwng J.A.ag R. Geldard a'r Meibion (621) 1350gini

Cyflwynodd Colin Price y gwpan i Charles Geldard.

Cwpan Coffa H.E. Roberts am y nifer mwyaf o bwyntiau yn Sioeau Nefyn, Caernarfon a Môn – A. Wynne Davies (50).

Cyflwynwyd y Gwpan i Wynne Davies gan Sian Hughes.

Cwpan Goffa Noel Baseley (Cwpan Bwyntiau) – Mr. A. Wynne Davies (50)

Cyflwynwyd y Gwpan i Wynne Davies gan John Geldard ar ran Mrs. Pat Baseley

Llongyfarchwyd yr aelodau am eu llwyddiant.

Cyflwynwyd dystysgrifau i'r rhai a ganlyn am yr anrhydedd ddaeth i'w rhan yn beirniadu yn un o'r Sioeau Brenhinol:

Sioe Frenhinol yr Ucheldir – Roger Wells – cyflwynwyd y dystysgrif gan Bethan Vaughan

Sioe Frenhinol Cymru – M.H. Miller – cyflwynodd Bethan Vaughan y dystysgrif i Sarah Eckett ar ran Mike Miller.

13. **CYSTADLEUAETH FFOTOGRAFFIAETH**

Adroddwyd mai Heather a Martin Grayshon oedd y beirniad am eleni. Adroddodd Kathryn Dick y Swyddog Hyrwyddo fod nifer dda a luniau wedi dod i law. Y pencampwr oedd Paul Barrow (726) a fyddai'n derbyn gwobr o nwyddau gan J.G. Animal Health Products.

Cyflwynodd Heather Stoney-Grayshon y wobwr i James Barrow.

Diolchwyd i JG Animal Health Products am noddi'r gystadleuaeth, Martin a Heather Grayshon am feirniadu ac i'r rhai anfonodd luniau i fewn.

14. **CYSTADLEUAETH Y DDIADDELL GENEDLAETHOL**

Adroddwyd y daeth saith ymgais i law ac fe'i beirniadwyd gan Roger a Helen Wells. Y pencampwr oedd Andrew Kennedy, ail Wynne Davies ac yna yn drydydd David Knowles. Noddwyr y gystadleuaeth oedd J.G. Animal Health a diolchwyd iddynt am eu haelioni. Hefyd diolchwyd i Roger a Helen Wells am feirniadu.

15. **UNRHYW FATER ARALL**

Awgrymwyd fod meicroffon yn cael ei ddefnyddio yn y Cyfarfodydd Blynyddol o hyn ymlaen.

16. **DIOLCHIADAU**

Cyflwynwyd y diolchiadau gan Carolanne Crawford (diadell 1952). Diolchodd i'r Llywydd, y Gadeiryddes a'r Trysorydd am eu gwaith canmoladwy.

Y Tîm Archwilio'r Meheryn am eu gwaith arbennig.

Yr Ysgrifenyddes

Wrth ffarwelio a Heather Stoney-Grayshon, Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Brid, diolchodd iddi am ei gwasanaeth dros y flwyddyn a dymunodd yn dda iddi; estynnodd groeso i Kathryn Dick, y Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu newydd a dymunodd bob rhwyddineb iddi gyda'r gwaith.

Clwb yr Alban am eu paratodau ar gyfer y penwythnos arbennig yma.

Ategwyd y diolchiadau gan Gwenllian Roberts (2000).

ADRODDIAD Y GADEIRYDDES

“B”

Mae 2023/24 wedi gweld llawer o ddatblygiadau cyffrous i'r Gymdeithas Ddefaid Llŷn yn ystod yr hyn a fu'n flwyddyn gythryblus i'r diwydiant defaid.

Cawsom aeaf gwlyb gyda thywydd ofnadwy ar gyfer wyna. Ynghyd ag achosion o Schmallerberg roedd yn golygu bod colledion sylweddol yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, mae prisiau cig oen wedi bod yn uchel yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â masnach y mamogiaid difa a hyn wedi arwain at alw mawr am ddefaid magu yn yr hydref.

Lansiodd y Gymdeithas ei gwefan newydd ym mis Mai sydd wedi derbyn nifer sylweddol o ymwelwyr ers ei lansio ac sy'n ffres, yn llachar ac yn haws ei defnyddio na'r hen safle.

Ynghyd â Herdsmedia cynhyrchwyd ein fideos hyrwyddo cyntaf ar gyfer y gymdeithas. Diolch i David Knowles a John & James Dugdale am ganiatáu i ni eu defnyddio fel ein harbrawf hyrwyddo. Mae'r fideos wedi cael derbyniad da ac unwaith eto daeth mwy o ymwelwyr i'n cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan.

Cynhaliom hefyd ein cystadleuaeth triniwr ifanc cyntaf yn y Sioe Frenhinol. Profodd hyn yn llwyddiant mawr a diolch i'n beirniaid Alan ac Aoife McDonald am ymgymryd â'r dasg anodd hon. Mae'n ymddangos mai plant bach a defaid yw'r tynfa fwyaf ymysg unrhyw waith hyrwyddo rydyn ni'n ei wneud!

Cynhaliodd y Gymdeithas ein harwerthiant ar-lein cyntaf ym mis Gorffennaf hefyd. Roedd yn gam i gyfeiriad newydd i'r Gymdeithas ond cododd o geisiadau'r aelodau a phrofodd i fod yn boblogaidd gyda'r gwerthwyr a'r prynwyr. Am y tro cyntaf caniatwyd i'r aelodau werthu croesfrid Lleyn ac arweiniodd hyn at fynediad bychan o groesfridiau.

Roedd ein harwerthiannau eleni, ar y cyfan, yn dda iawn. Roedd rhai anghysondebau ar draws y wlad ond mae hyn yn digwydd yn flynyddol ac mae'r cyfartaleddau yn sylweddol uwch na'r llynedd.

Fel Cymdeithas mae ein hincwm yn gostwng ac rydym wedi gwneud penderfyniadau anodd i dorri ein costau yn unol â hynny. Ar gyfer 2023/24 gwnaethom elw gweithredu bach, ond gwyddom fod mwy o heriau o'n blaenau ac rydym yn parhau i edrych yn ofalus ar ein costau. Mae ffermio a'r diwydiant defaid yn newid. Mae'n rhaid inni symud gyda'r oes er mwyn inni gadw ein safle yn y diwydiant defaid. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ystyried newid y ffordd yr ydym yn mynd ati i werthu a marchnata a rhoi cynnig ar bethau newydd. Rydyn ni'n dysgu o bopeth newydd rydyn ni'n ei geisio a chyn belled nad ydyn ni'n ailadrodd ein camgymeriadau ac yn canolbwyntio ar y pethau sy'n mynd yn dda, rydyn ni'n parhau i symud ymlaen.

Bydd defaid Llŷn bob amser yn ganolog i'r hyn a wnawn.

Yn olaf, rhaid i mi ddiolch i'n staff, Gwenda a Kathryn, sy'n cadw'r Gymdeithas i redeg, gan wneud penderfyniadau'r cyngor yn realiti, yn ogystal â chadw ein haelodau'n hapus.

ADRODDIAD Y CYNGOR

Blwyddyn arall wedi hedfan a gwelwyd cryn brysurdeb gan aelodau'r Cyngor etholedig. Gwelwyd cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn dilyn cyfnod COFID ac hefyd roedd y Sioeau a'r Diwrnodau Agored yn eu llawn anterth.

Teithiodd y Tîm Archwilio i wahanol leoliadau yma yn y Derynas Unedig ac hefyd De Iwreiddon a daeth nifer dda o feheryn ymlaen eleni eto i'w harchwilio. Diolchir yn ddiffuant i'r Tîm am eu gwaith canmoladwy er cadw safonau'r brid ac wrth gwrs i'r aelodau am ddod a'u hanfeiliaid ymlaen i'w harchwilio.

Bu'r Arwerthiannau ym 2024 yn llwyddiant ysgbugol yn y mwyafrif o'r marchnadoedd a da yw cael adrodd fod yr aelodau yn cyflwyno anifaeliaid o safon i'w gwerthu ac mae hyn ynddo'i hun yn galonogol er sicrhau dyfodol y brid. Un pwynt yr hoffem eleni eto ei gyflwyno i'ch ystyriaeth yw yr angen i gefnogi'r arwerthiannau – heb eich cefnogaeth chwi bydd yn rhaid ystyried cwtogi'r nifer o arwerthiannau ac hefyd ni dderbynir incwm sydd yn hanfodol er gweithrediad y Gymdeithas. Hoffem ddiolch i'r rhai fu'n gofalu am rediad hwylus bob un o'r Arwerthiannau. Hefyd gwelwyd y Gymdeithas yn arloesi gyda arwerthiant arlein o dan arweiniad yr Arwerthwyr Harrison a Hetherington.

Un pryder a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24 oedd y gostyngiad yn yr incwm a dderbyniwyd am gofrestru ŵyn benyw ac yn wir mae'n debygol iawn y bydd hyn yn cael ei ail-adrodd eleni eto gan fod yr ŵyn tew wedi cyrraedd eu pinact yn ystod dechrau'r flwyddyn. Gofynnir yn garedig iawn i chwi fel aelodau gofrestru eich ŵyn benyw erbyn diwedd mis Hydref neu ddiwedd y flwyddyn fan bellaf gan fod angen yr incwm yma er hyrwyddo'r brid a sicrhau dyfodol disglair i'r Gymdeithas. Diolchir i chwi ymlaen llaw am eich ystyriaeth i hyn.

Mae'r is-bwyllgorau, Hyrwyddo'r Brid, Gwella'r Brid a'r Next Gen, wedi cyfarfod yn rheolaidd drwy'r flwyddyn a chyflwyno eu hargymhellion i'r Cyngor. Mae gwaith yr is-bwyllgorau hyn yn amhrisiadwy a diolchir iddynt.

Yn ystod y flwyddyn cafodd gwefan newydd wedi cael ei datblygu ac mae'r cyfryw yn rhoi gwybodaeth eang am y brid a'i datblygiad. Mae diolch y Gymdeithas i'r rhai fu'n gyfrifol am wneud hyn – David Knowles a'r Tîm.

Fel yr ydych yn ymwybodol bellach, bwriad y Gymdeithas yw mynd yn gymdeithas ddi-bapus yn y dyfodol agos ac anogir pob aelod i gysylltu â'r swyddfa gyda chyfeiriad e-bost. Wrth gwrs, deallir fod hyn yn broblem i rai aelodau ond gofynnir yn garedig i chwi geisio cael aelod o'r teulu neu ffrind i'w derbyn ar eich rhan, neu os nad yw hyn yn bosibl gellir cael copi caled drwy'r post ond gadael i'r swyddfa wybod.

Hefyd i'r rhai ohonoch sy'n dal i dalu eich tâl aelodaeth blyneddol drwy siec/arian parod neu archeb sefydlog, hoffem eich annog i dalu eich aelodaeth drwy gyfrwng Debyd Uniongyrchol. Os y dymuwch symud i dalu yn y dull yma a fyddwch mor garedig a chysylltu â'r swyddfa os gwelwch yn dda ac anfonir y ffurflen berthnasol i chwi.

Nodyn byr i'ch atgoffa ynglyn â'r drefn pleidleisio yn y Cyfarfod Blyneddol – rhaid eich bod wedi talu eich tâl aelodaeth yn llawn cyn y gellwch benodi dirprwy (yn aelod o'r Gymdeithas a'i peidio) i fynychu'r cyfarfod ar eich rhan ac i siarad a phleidleisio felly. Rhaid i'r penodiad yma

gael ei arwyddo gennych chwi a'i gyflwyno i mi cyn y gall fod yn weithredol. Cofiwch hefyd y bydd yn rhaid i'r person a benodir gennych gyflwyno'r apwyntiad i mi **cyn dechrau'r Cyfarfod Blynyddol**. Nodir hefyd na all unrhyw berson weithredu fel dirpwy dros **fwy nag un aelod**.

Wrth derfynu hoffem ddiolch yn ddiffuant i Glwb Yr Alban a'r Gororau am drefnu penwythos werth chweil i ni ym 2023, ac rydym yn sicr y gwelwn yr un mwynhad i lawr yng Ngwlad yr Haf. Erychwn ymlaen am bethwynos i'w chofio.

"CH"

RHIF COFRESTREDIG: 23902R (Cymru)

Adroddiad y Cyfarwyddwyr a Datganiadau Ariannol heb eu Harchwilio
am y Flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024

Ar gyfer

Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf)

**Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf)**

**Cynnwys y Datganiadau Ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

	Tudalen
Gwybodaeth Cwmni	1
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	2
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	3
Adroddiad Adolygiad y Cyfrifydd Siartredig Annibynnol	4
Datganiad Incwm	5
Mantolen	6
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	8
Cyfrif Elw a Chollod Manwl	13

**Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf)**

**Gwybodaeth Cwmni
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

CYFARWYDDWYR: Mr A W Davies
Mr J Geldard
Mrs G Adams
Mr E Adamson
Mr J Barrow
Mr I Bracewell
Mr D Bond
Mrs C Crawford
Mr J Dugdale
Mrs P S Hale
Mr M Harris
Mr A W Hughes
Mr I O Jones
Mr A Kelly
Mr D Knowles
Mr M H Miller
Mr D Steen
Mr R Twose
Mrs B Vaughan

YSGRIFENNYDD: Mrs G Roberts

SWYDDFA GOFRESTREDIG: Gwyndy
Bryncroes
Sarn
PWLLHELI
Gwynedd
LL53 8ET

RHIF COFRESTREDIG: 23902R (Cymru)

CYFRIFYDD ANNIBYNNOL: Emyr Mortimer Archwilwyr Cyf
32 Y Maes
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2NN

**GWYBODAETH
YCHWANEGOL:** Efallai y bydd rhai darllenwyr yn defnyddio'r
term 'aelod pwyllgor' neu 'ymddiriedolwr' yn
hytrach nag 'cyfarwyddwr', ond er hwylystod,
defnyddir 'cyfarwyddwr' drwy'r ddogfen hon.

**Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf)**

**Adroddiad y Cyfarwyddwyr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

Mae'r cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol y cwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.

CYFARWYDDWYR

Mae'r cyfarwyddwyr a ddangosir isod wedi dal eu swyddi yn ystod y cyfnod cyfan o 1 Ebrill 2023 hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn.


Mr A W Davies
Mr J Geldard
Mrs G Adams
Mr E Adamson
Mr J Barrow
Mr I Bracewell
Mr D Bond
Mrs C Crawford
Mr J Dugdale
Mrs P S Hale
Mr M Harris
Mr A W Hughes
Mr I O Jones
Mr A Kelly
Mr D Knowles
Mr M H Miller
Mr D Steen
Mr R Twose
Mrs B Vaughan

Mae newidiadau eraill yn nifer y cyfarwyddwyr sy'n dal swyddi fel a ganlyn:

Peidiodd Mr D W Ellis a Mr M Williams â bod yn gyfarwyddwyr ar ôl 31 Mawrth 2024 ond cyn dyddiad yr adroddiad hwn.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â darpariaethau Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n ymwneud â chwmnïau bach.

AR RAN Y BWRDD:

Signed by:

87401727DB3E49B

.....
Mrs G Roberts - Ysgrifenyddes

Dyddiad: 30.9.24

**Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf)**

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'r cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a chyfraith berthnasol). O dan gyfraith cwmnïau rhaid i'r cyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o elw neu golled y cwmni am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:


- dewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol a doeth;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni'n parhau mewn busnes.


Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y cwmni a datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006 a'r Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

AR RAN Y BWRDD:

Signed by:

.....
47CE43C005A6199
Mr A W Davies – Cyfarwyddwr

DocuSigned by:

.....
FEF7B5A227GF48D
Mr D Knowles - Cyfarwyddwr

DocuSigned by:

.....
EG78D8518575430
Mrs B Vaughan – Cyfarwyddwr

Dyddiad: 30.9.24

Adroddiad Adolygiad y Cyfrifydd Siartredig Annibynnol i Gyfarwyddwyr Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas Defaid Lleyn Cyf)

Rydym yn adrodd ar ddatganiadau ariannol y Cwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, sy'n cynnwys y datganiad incwm, y fantolen a'r nodiadau datgelu cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol ac FRS 102, y Safonau Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon, o dan Adran 1A.

Priod gyfrifoldebau'r bwrdd y cyfarwyddwyr a'r cyfrifydd arholi annibynnol

Bwrdd cyfarwyddwyr y Cwmni sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, ac maent yn ystyried nad oes angen archwiliad eleni, ond bod angen adroddiad cyfrifydd annibynnol. Ein cyfrifoldeb ni yw dilyn gweithdrefnau priodol sydd wedi'u cynllunio i'n galluogi i adrodd ar ein casgliad ar hynny.

Sail y casgliad

Cynhaliwyd ein gwaith yn unol â gofynion ein corff proffesiynol, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr. Roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys adolygiad o'r cofnodion cyfrifyddu a gadwir gan y Cwmni a chymhariaeth o'r datganiadau ariannol a gyflwynwyd gyda'r cofnodion hynny. Roedd hefyd yn cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon a cheisio esboniadau gan y cyfarwyddwyr ynghylch materion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a ddilynir yn darparu'r holl dystiolaeth y byddai ei hangen ar gyfer archwiliad, ac o ganlyniad nid ydym yn mynegi barn archwilio ar y farn a roddir yn y datganiadau ariannol.

Cwmpas ein hadolygiad

Mae adolygiad o ddatganiadau ariannol yn unol ag ISRE 2400 (diwygiedig) yn ymrwymiad sicrwydd cyfyngedig. Rydym wedi cyflawni gweithdrefnau ychwanegol i'r rhai sy'n ofynnol o dan ymgysylltiad casglu. Mae'r rhain yn bennaf yn cynnwys gwneud ymholiadau i reolwyr ac eraill o fewn y cwmni, fel y bo'n briodol, cymhwyso gweithdrefnau dadansoddol a gwerthuso'r dystiolaeth a gafwyd. Mae'r gweithdrefnau a gyflawnir mewn adolygiad gryn dipyn yn llai na'r rhai a gyflawnir mewn archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU). Yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio ar y datganiadau ariannol hyn.

Casgliad

Yn seiliedig ar y gweithdrefnau a ddilynwyd:

- (a) bod y datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu hynny a gadwir gan y Cwmni o dan adran 75 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014;
- (b) o ystyried yn unig, ac ar sail, yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cofnodion cyfrifyddu, mae'r datganiadau ariannol wedi'u llunio mewn modd sy'n gyson â gofynion cyfrifyddu'r ddeddfwriaeth gymwys; a,
- (c) bod y Cwmni wedi bodloni'r amodau ar gyfer eithrio rhag archwiliad o'r datganiadau ariannol am y flwyddyn a bennir yn adran 84(1) o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac nad oedd ar unrhyw adeg o fewn y flwyddyn honno yn dod o fewn unrhyw un o'r categorïau o sefydliadau nad oes ganddynt hawl i'r eithriad a bennir yn adran 84(3) o'r Ddeddf honno.



Emyr Mortimer Archwilwyr Cyf
32 Y Maes
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2NN

Dyddiad: 11.10.24

nid yw'r dudalen hon yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol statudol

**Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf)**

**Datganiad Incwm
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

		31.3.24		31.3.23	
	Nodiadau	£	£	£	£
TROSIANT			110,755		123,431
Treuliau gweinyddol		<u>120,097</u>	<u>120,097</u>	<u>135,736</u>	<u>135,736</u>
			(9,342)		(12,305)
Incwm gweithredu arall			<u>1,663</u>		<u>2,228</u>
COLLED GWEITHREDOL	4		(7,679)		(10,077)
Llog derbyniadwy ac incwm tebyg			<u>7,843</u>		<u>8,153</u>
			164		(1,924)
Ennill/colled ar ailbrizio buddsoddiadau			<u>13,381</u>		<u>(21,950)</u>
ELW/(COLLED) CYN TRETHIANT			13,545		(23,874)
Treth ar elw/(colled)			<u>3,680</u>		<u>9,725</u>
ELW/(COLLED) AM Y FLWYDDYN ARIANNOL			<u>9,865</u>		<u>(33,599)</u>

Mae'r nodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

**Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf) (Rhif cofrestredig: 23902R)**

**Mantolen
31 Mawrth 2024**

	Nodiadau	31.3.24		31.3.23	
		£	£	£	£
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau anghyffwrddadwy	5		55		75
Asedau cyffwrddadwy	6		-		-
Buddsoddiadau hir-dymor	7		<u>1,000</u>		<u>1,000</u>
			1,055		1,075
ASEDAU PRESENNOL					
Dyledwyr	8	1,645		642	
Buddsoddiadau presennol	9	274,555		263,033	
Arian parod yn y banc		<u>97,849</u>		<u>102,237</u>	
		374,049		365,912	
CREAWDWYR					
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	10	<u>11,956</u>		<u>15,895</u>	
ASEDAU PRESENNOL NET			<u>362,093</u>		<u>350,017</u>
CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			363,148		351,092
DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU			<u>10,365</u>		<u>8,176</u>
ASEDAU NET			<u>352,783</u>		<u>342,916</u>

Mae'r nodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

**Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf) (Rhif cofrestredig: 23902R)**

**Mantolen - parhad
31 Mawrth 2024**


Nodiadau	31.3.24 £	31.3.23 £
CYFALAF A CHRONFEYDD WRTH GEFN		
Cyfalaf cyfranddaliadau a alwyd i fyny	738	736
Cronfa ailbrisió 11	44,189	34,856
Cronfa incwm a gwariant	<u>307,856</u>	<u>307,324</u>
13	<u>352,783</u>	<u>342,916</u>

Wrth gymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, mae'r cyfarwyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau am:

- sicrhau bod y Cwmni'n cadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n cydymffurfio ag adran 76 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.
- sefydlu a chynnal system reoli foddhaol, llyfrau cyfrifon, ei ddaliadau arian parod a'i holl dderbyniadau a thaliadau er mwyn cydymffurfio ag adrannau 75 a 76 o'r Ddeddf; a
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cwmni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'i elw / (colled) am y flwyddyn ariannol yn unol â gofynion adran 80, ac sydd fel arall cydymffurfio â gofynion y Ddeddf sy'n ymwneud â datganiadau ariannol, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r Cwmni.
- bod gan y cwmni hawl i'r eithriad a roddwyd gan Adran 84 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 am y cyfnod a nodir uchod.


Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i endidau bach – Safon Adrodd Ariannol 102, adran 1A.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan fwrdd y cyfarwyddwyr ac awdurdodwyd eu cyhoeddi ar 30.9.24 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Signed by:

47CE43C095A6499
Mr A W Davies – Cyfarwyddwr

DocuSigned by:

FF87B5A857CF480
Mr D Knowles - Cyfarwyddwr

DocuSigned by:

EC78L9S18075420
Mrs B Vaughan – Cyfarwyddwr

Mae'r nodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae'r Cwmni wedi'i gyfyngu gan gyfranddaliadau ac wedi'i gofrestru yng Nghymru. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw: Gwyndy , Bryncroes , Sarn, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8ET. Paratoir y datganiadau ariannol mewn sterling, sef arian cyfred gweithredol y gymdeithas.

2. POLISI'AU CYFRIFO

Sail paratoi'r datganiadau ariannol

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" gan gynnwys darpariaethau Adran 1A "Endidau Bach", Deddf Cwmnïau 2006 a'r Budd Cymunedol Cydweithredol a Chymunedol. Deddf Cymdeithasau 2014 . Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol.

Trosiant

Mae trosiant yn cael ei fesur ar werth teg y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy, heb gynnwys gostyngiadau, ad-daliadau, treth ar werth a threthi gwerthu eraill. Mae'r holl incwm wedi'i gynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fydd hawl wedi trosglwyddo i'r cwmni. Mae'r polisi'au penodol canlynol yn cael eu cymhwyso i gategori'au incwm penodol:

- mae incwm o aelodaeth yn cael ei gydnabod yn unol â'r meini prawf uchod, a bydd adnewyddiad blynyddol yn ddyledus ar 1 Ionawr bob blwyddyn.
- mae incwm o roddion neu grantiau yn cael ei gydnabod pan fo tystiolaeth o hawl i'r rhodd, derbyniad yn debygol, a gellir mesur ei swm yn ddibynadwy.
- mae incwm o gontractau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn cael ei gydnabod gyda chyflwyno'r gwasanaeth dan gontract. Caiff hwn ei ddsbarthu fel cronfeydd anghyfyngedig oni bai bod gofyniad cytundebol iddo gael ei wario ar ddiben penodol a'i ddychwelyd os na chaiff ei wario, ac os felly gellir ei ystyried yn gyfyngedig.
- mae grantiau cyfalaf yn cael eu cydnabod fel rhwymedigaethau ac yn cael eu hamorteiddio drwy randaliadau blynyddol cyfartal ar yr un sail â'r tâl dibrisiant sy'n berthnasol i'r asedau dan sylw.

Asedau sefydlog anghyffwrddadwy

Mae Asedau sefydlog anghyffwrddadwy yn cael eu mesur i ddechrau ar gost. Ar ôl cydnabyddiaeth gychwynnol, caiff asedau anniriaethol eu mesur ar gost llai unrhyw amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion amhariad cronedig.

Mae patentau a thrwyddedau'n cael eu hamorteiddio'n gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig o ddeng mlynedd.

Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas Defaid Lleyn Cyf)

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

2. POLISI'AU CYFRIFO – parhad

Asedau sefydlog cyffwrddadwy

Datgenir asedau sefydlog yn ôl eu prisiau cost, llai dibrisiant cronedig a llai unrhyw symiau a gydnabyddir mewn perthynas ag amhariad.

Darperir dibrisiant ar y cyfraddau blyneddol canlynol er mwyn dileu pob ased dros ei oes ddefnyddiol amcangyfrifedig.

Offer a pheiriannau ac ati - 20% ar gost a 10% ar gost

Trethiant

Mae trethiant am y flwyddyn yn cynnwys treth gyfredol a threth ohiriedig. Cydnabyddir treth yn y Datganiad Incwm, ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag eitemau a gydnabyddir mewn incwm cynhwysfawr arall neu'n uniongyrchol mewn ecwiti. Nid yw asedau a rhwymedigaethau trethiant cyfredol neu ohiriedig yn cael eu disgowntio.

Cydnabyddir treth gyfredol ar swm y dreth sy'n daladwy gan ddefnyddio'r cyfraddau treth a'r cyfreithiau sydd wedi'u deddfu neu eu deddfu'n sylweddol erbyn dyddiad y fantolen. Fodd bynnag, oherwydd ei statws cyfuddiannol ni all y cwmni wneud elw trethadwy ar wasanaethau a ddarperir i aelodau. Telir Treth Gorfforaeth ar incwm buddsoddi.

Treth ohiriedig

Cydnabyddir treth ohiriedig mewn perthynas â'r holl wahaniaethau amseru sydd wedi deillio ond heb eu gwrthdroi ar ddyddiad y fantolen.

Mae gwahaniaethau amseru yn deillio o gynnwys incwm a threuliau mewn asesiadau treth mewn cyfnodau sy'n wahanol i'r rhai y cânt eu cydnabod mewn datganiadau ariannol. Mesurir treth ohiriedig gan ddefnyddio cyfraddau treth a chyfreithiau sydd wedi'u deddfu neu eu deddfu'n sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn ac y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i wrthdroi'r gwahaniaeth amseru.

Cydnabyddir colledion treth nas rhyddhawyd ac asedau treth ohiriedig eraill dim ond i'r graddau ei bod yn debygol y cânt eu hadennill yn erbyn gwrthdroi rhwymedigaethau treth ohiriedig neu elw trethadwy arall yn y dyfodol.

Ymrwymadau hurbwrcas a phrydlesu

Mae rhenti a delir o dan brydlesi gweithredol yn cael eu codi ar elw neu golled ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

3. GWEITHWYR A CHYFARWYDDWYR

Nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn oedd 2 (2023 - 2).

4. ELW GWEITHREDOL/(COLLED)

Nodir yr elw gweithredu (2023 - colled gweithredu) ar ôl codi tâl:

	31.3.24	31.3.23
	£	£
Patentau a thrwyddedau amorteiddio	<u>20</u>	<u>20</u>

**Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf)**

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

5. ASEDAU SEFYDLOG ANGHYFFWRDDADWY

**Asedau
anghyffwrddadwy
£**

COST

Ar 1 Ebrill 2023
a 31 Mawrth 2024

200

AMORTISIAD

Ar 1 Ebrill 2023
Amorteiddio yn y flwyddyn

125

20

Ar 31 Mawrth 2024

145

GWERTH LLYFR

Ar 31 Mawrth 2024

55

Ar 31 Mawrth 2023

75

Mae'r uchod yn ymwneud â chofrestru 'Nod Masnach' sy'n cael ei amorteiddio dros gyfnod o 10 mlynedd.

6. ASEDAU SEFYDLOG CYFFWRDDADWY

**Offer a
pheiriannau
ayyb
£**

COST

Ar 1 Ebrill 2023
a 31 Mawrth 2024

22,180

DIBRISANT

Ar 1 Ebrill 2023
a 31 Mawrth 2024

22,180

GWERTH LLYFR

Ar 31 Mawrth 2024

-

**Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf)**

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

7. BUDDSODDIADAU HIR-DYMOR

	Arall buddsoddiadau £
COST	
Ar 1 Ebrill 2023	
a 31 Mawrth 2024	<u>1,000</u>
GWERTH LLYFR GLAN	
Ar 31 Mawrth 2024	<u>1,000</u>
Ar 31 Mawrth 2023	<u>1,000</u>

Mae'r uchod yn ymwneud â buddsoddiad o 1,000 o gyfranddaliadau yn Farmers First Ltd.

8. DYLEDWYR: SYMIAU SY'N SYRTHIO O FEWN FLWYDDYN

	31.3.24 £	31.3.23 £
Dyledwyr masnach	1,585	582
Dyledwyr eraill	<u>60</u>	<u>60</u>
	<u>1,645</u>	<u>642</u>

9. BUDDSODDIADAU ASEDAU PRESENNOL

	31.3.24 £	31.3.23 £
Buddsoddiadau rhestredig	<u>274,555</u>	<u>263,033</u>

Mae'r uchod yn ymwneud â buddsoddiadau a ddelir gyda Rathbones a'r NFU ac sy'n cael eu prisiau yn ôl eu gwerth marchnad agored.

10. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N SYRTHIO O FEWN FLWYDDYN

	31.3.24 £	31.3.23 £
Credydwy'r masnach	640	3,134
Trethi a nawdd cymdeithasol	3,767	4,676
Credydwy'r eraill	<u>7,549</u>	<u>8,085</u>
	<u>11,956</u>	<u>15,895</u>

**Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf)**

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol - parhad
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

11. CRONFEYDD

	Ailbrisiad wrth gefn (buddsoddiadau)
	£
Ar 1 Ebrill 2023	34,856
Trosglwyddiad ailbrisio	<u>9,333</u>
Ar 31 Mawrth 2024	<u>44,189</u>

12. DATGELU PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Rheolir y cwmni gan ei Bwyllgor, ac y mae enwau yr aelodau wedi'u rhestru ar dudalen 1.

Yn gyffredinol, nid oedd unrhyw drafodion partiön cysylltiedig rhwng y Pwyllgor a'r cwmni, ar wahân i gostau teithio penodol yn cael eu had-dalu i'r aelodau.

Fodd bynnag, derbyniodd Mr A W Hughes £14,326 (2023: £13,763) ar gyfer gwaith arolygu a wnaethpwyd ganddo ef a'i wraig, a'r costau cysylltiedig â hynny.

Hefyd, talwyd honoraria gwerth £2,000 (2022: £2,332) i'r Llywydd a Chadeirydd y cwmni.

13. CYSONI SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

	31.3.24	31.3.23
	£	£
Elw/(colled) ar gyfer y flwyddyn ariannol	9,865	(33,599)
Cyfalaf cyfranddaliadau newydd wedi'i danysgrifio	60	43
cyfalaf cyfranddaliadau wedi'i ganslo	<u>(58)</u>	<u>(40)</u>
Ychwanegiad/(gostyngiad) net i'r cronfeydd wrth gefn	9,867	(33,596)
Cronfeydd wrth gefn agoriadol	<u>342,916</u>	<u>376,512</u>
Cronfeydd wrth gefn a garwyd ymlaen	<u>352,783</u>	<u>342,916</u>

**Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas
Defaid Lleyn Cyf)**

**Cyfrif Elw a Cholled Manwl
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024**

	31.3.24		31.3.23	
	£	£	£	£
Trosiant				
Tanysgrifiadau aelodau	21,582		23,352	
Tâl cofrestru - mamogiaid	36,750		41,374	
Archwilio a chofrestru hyrddod	30,057		30,314	
Comisiwn gwerthu a ffioedd	12,824		13,829	
Tagiau cymdeithas	430		944	
Tagiau cymdeithas - post	102		296	
Manion ac ad-daliadau	819		2,215	
Hysbysebu	5,578		8,304	
Nawdd	2,550		2,500	
Gwerthu nwyddau	43		283	
Tâl aelodaeth clwb	20		20	
	<u>110,755</u>		<u>123,431</u>	
Incwm arall				
Rhoddion	1,663		1,722	
Enillion cyfnewid	-		506	
Llog banc a buddsoddiadau	4,360		2,213	
Incwm buddsoddi arall	3,483		5,940	
	<u>9,506</u>		<u>10,381</u>	
	120,261		133,812	
Gwariant				
Cyflogau gweinyddol	24,216		26,969	
Cymorth gyda gwaith ysgrifenyddol	-		120	
Cyflogau hyrwyddo	25,489		26,969	
Archwiliadau hyrddod	8,187		7,577	
Archwiliadau hyrddod - Costau teithio a llety	6,139		6,186	
Honoraria	2,000		2,000	
Sioeau a digwyddiadau	6,185		6,777	
Datblygiad brid	1,528		1,604	
Llawlyfr	4,247		4,334	
Costau postio'r llawlyfr	1,579		1,920	
Tagiau cymdeithas	419		955	
Costau teithio - gweinyddwr	299		91	
Treuliau teithio - hyrwyddo	2,523		3,660	
Cyfraniad i glybiau	900		800	
Yswiriant	3,825		3,728	
Portacabin	3,128		3,621	
Ffotograffiaeth	1,600		1,825	
Costau pwyllgor	1,064		2,108	
Costau pwyllgor - teithio	1,436		3,749	
Costau'r cyfarfod blynyddol	1,242		328	
	<u>96,006</u>	<u>120,261</u>	<u>105,321</u>	<u>133,812</u>
Cariwyd ymlaen				

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiadau ariannol statudol

Lleyn Sheep Society Limited (Cymdeithas Defaid Lleyn Cyf)

Cyfrif Elw a Cholled Manwl ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

	31.3.24		31.3.23	
	£	£	£	£
Dygwyd ymlaen	96,006	120,261	105,321	133,812
Llogi offer a pheiriannau	2,501		3,344	
Cyfraniad ymchwil Caerdydd	-		3,828	
Ffôn	720		976	
Post a deunydd ysgrifennu	3,807		3,538	
Hysbysebu	6,646		9,248	
Teithio	278		-	
Costau 'Grassroots'	1,151		1,108	
Gwefan a chronfa ddata	412		264	
Hyfforddiant meddalwedd a chyfrifiadurol	1,190		1,647	
Mân dreuliau	87		2	
Cyfrifyddiaeth	3,060		1,940	
Ffioedd proffesiynol eraill	627		216	
Tanysgrifiadau	398		380	
Colledion cyfnewid tramor	436		-	
		<u>117,319</u>		<u>131,812</u>
		2,942		2,000
Costau cyllid				
Taliadau banc	899		1,059	
Taliadau buddsoddi	<u>1,859</u>		<u>2,845</u>	
		<u>2,758</u>		<u>3,904</u>
		184		(1,904)
Dibrisiant				
Patentau a thrwyddedau		<u>20</u>		<u>20</u>
		164		(1,924)
Ennill/colled ar ailbrisiu asedau				
Ennill/colled ar ailbrisiu buddsoddiadau		<u>13,381</u>		<u>(21,950)</u>
ELW NET/(COLLED)		<u>13,545</u>		<u>(23,874)</u>

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiadau ariannol statudol